

# Yr Entrepreneur o'r Palé



Henry Robertson (1816-1880)

Plasty, sydd bellach yn westy moethus yn Llandderfel, Penllyn, yw y Palé. Yn ôl Evan Roberts, yr hanesydd lleol y clywsom amdano yn nau rifyn diwethaf *Y Casglwr*, ystyr yr enw Palé yw 'palau' sef 'polion' sydd o 'gylch y tŷ, a'r tir perthynol iddo'. Ychwanegir yr ystyr o 'amddiffynfa' gan GPC. Gwir fod nifer o enwau ffermydd yn y plwyf yn adlewyrchu amser o ryfel ac felly mae'n bosibl derbyn yr awgrym olaf. Lled-awgrymir gan Evan Roberts fod plasty yno'n wreiddiol ond bod y plasty presennol yn 'hollol wahanol'. Codwyd hwnnw gan Scotyn enwog o'r enw Henry Robertson (1816-1880). Ef oed un o gyfalafwyr a diwydianwyr pennaf gogledd Cyru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir cofnod cryno am ei fywyd yn y *Bywgraffiadur Cymreig* hyd 1940. Yn ŵr ifanc danfonwyd ef o'r Alban yn 1842 i geisio adfywio'r diwydiannau glo a haearn yng ngogledd ddwyrain Cymru (gan gynnwys Wrecsam, Rhiwabon a Brymbo). 'Roedd y sefyllfa yn wirioneddol ddrwg gyda newyn yn cerdded y strydoedd.

## Ei lwyddiant mewn codi rheilffyrdd

Gwelodd ar unwaith mai y diffyg pennaf oedd nad oedd rheilffordd ar gael i gludo'r cynnyrch yn gyflym ac yn rhad i'r porthladdoedd a'r trefi pwysicaf. Ei lwyddiant mwyaf - a alwai am lafur enfawr, (o fod yn dirfesyrydd, i osod y cledrau, i gomisyntu'r trenau etc.), - oedd ei waith yn codi nifer o reilffyrdd, yn enwedig honno o Gaer i Wrecsam a Rhiwabon, ac yna i'r Amwythig i'r de, ac i'r Bala a Dolgellau i'r gorllewin. Ehangodd y rhwydwaith ymhellach i gynnwys y Cambrian a nifer o reilffyrdd cysylltiol eraill, ond ei orchestwaith yn ddiamau oedd Pont Ffroncsyllte - un o addurniadau pensaernïol gloywaf oes Fictoria. Agorwyd y cyfan o'r gogledd ddwyrain i drafnidiaeth yn hytrach na gorfod cludo nwyddau ar hyd ffyrdd gwael a chamlesi - pellter o hanner cant ac wyth o filltiroedd. Cynyddodd ei ddatblygiadau mewn gweithiau glo a haearn.



Y Palé fel ag y mae heddiw

Ymhellach bu'n Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Sir Amwythig (dair gwaith) a thros Sir Feirionnydd (un waith), a bu iddo arbenigo ar faterion yn ymwneud â rheilffyrdd, ac yn enwedig atal neu ganiatau rhyddid i agor rhai ar draws y wlad. Cyfrifid ef yn deg a chlir ei farn ac, wrth gwrs, bu ei brofiad helaeth yn fantais iddo. Yn y cyswllt hwn, carwn rannu gair byr ar ei ymyrraeth gyda rheilffordd ar y Epynt y deuthum ar ei draws wrth ymchwilio i fy nghyfrol ar hanes y mynydd hwnnw.

Bwriedid adeiladu rheilffordd i groesi'r Epynt o Ddefynnog i Langammarch. Trodd y bwriad yn ffaith gan i tua saith milltir o'i llwybr gael eu paratoi o Ddefynnog i fan uwchlaw capel y Babell, i fyny Cwm Cilieni. Gellir gweld olion y 'ffordd' hyd heddiw, ond ni osodwyd cledrau i lawr gan i'r cwmni oedd ynglyn â'r gwaith droi'n fethdalwyr. Ar Ionawr 20, 1862, er hynny, ceir cais i ail-gydio yn y fenter yn cael ei osod gerbron Pwyllgor Dewisol o Dŷ'r Arglwyddi. Rhydd yr adroddiadau ddarlun o ddadlau rhwng y cwmni newydd a fynnai hybu'r prosiect a'r cwmnïau rheilffyrdd, sef y *Mid-Wales Company a'r Brecon & Merthyr Tydfil Line*, oedd yn gweld y rheilffordd newydd fel bygythiad i'w trafnidiaeth hwy. Dadleuent nad oedd gyfiawnhad dros godi rheilffordd i wasanaethu ardal mor isel ei phoblogaeth. 'Doedd dim galw lleol amdani, ac anodd gweld sut y gallai dalu ei ffordd.

Yr wrth-ddadl oedd y byddai digon o alw am gyfleustra o'r fath i gario calch a glo i'r ffermydd, ac i gludo defaid a cheffylau, - a'r trigolion, wrth gwrs, yn ôl ac ymlaen i'r marchnadoedd a'r trefi. Un ddadl gref oedd bod yr ardal eang wedi ei llwyr hamddifadu o ffyrdd teilwng ac y byddai'r rheilffordd yn llanw'r angen yn rhad ac yn rhwydd. Maentumid y gellid cael stesion yng Nghwm Cilieni gerllaw capel y Babell a mannau aros yn uwch i fyny'r mynydd.

'Roedd dadl arall o'i phlaid a rhoddwyd llais iddi yn Nhŷ'r Arglwyddi gan Henry Robertson. Mynnai ef ei bod yn rhesymol rhoi pob cefnogaeth i gwblhau'r rheilffordd 'er mwyn gorffen ac ymestyn rhediad y *Neath & Brecon Railway* fel ffordd i gysylltu arfordir de Cymru (yn enwedig Castell Nedd ac Abertawe) â'r gogledd (sef gogledd Lloegr) trwy gyfrwng y *Central Wales Railway*. A fi o e d d y peiriannydd i

honno'. Ychwanegodd y byddai y rheilffordd newydd yn arbed 18milltir o'r ffordd o Craven Arms i Gastell Nedd. 'Roedd contractwyr yn barod i ymgymryd â'r gwaith, a'r cyfan o gyfalaf oedd ei angen oedd £127,000.

Mae'n amlwg i'w eiriau ddwyn perswâd oherwydd cafwyd cydsyniad brenhinol i'r cais ar Awst 10, 1862, ond ni fu camau pellach yn y fenter hon, yn fwy na thebyg o ddiffyg cefnogaeth ariannol. Sylw un hanesydd lleol yn ddiweddarach yw fod yr ymdrech gyntaf wedi dwyn labrwyr i ganol y sir. Yn sgil hynny agorwyd llawer o siopau bach a thai cwrw yn y pentrefi cyfagos i gwrdd â'r gofynion. Ac adroddodd ymhellach fod eu ffyrdd o gadw (neu fethu) cadw'r Sul hefyd yn dramgwydd i'r trigolion ac yn torri ar heddwch Cwm Cilieni.

Mae'n amlwg i'r Sgotyn hwn ddwyn ffyniant i ddiwydiannau a thrafnidiaeth yng Nghymru. 'Roedd yn uchel ei barch ymhlith ei weithwyr a'r ardalwyr yn Llandderfel a phan fu'r Frenhines Victoria yn aros yn y Palé am nifer o ddyddiau wedi ei farwolaeth, talwyd teyrnged deilwng iddo trwy urddo ei fab yn 'Syr' ychydig fisoedd yn ddiweddarach. (Ysgrifennodd D. Tecwyn Lloyd yn ddifyr yn un o'i lyfrau am yr ymweliad: yr afiaith a'r teyrngarwch eithafol a doniol a ddangoswyd tuag at y Frenhines!). Gwnaeth yntau ei orau i gynnal gwaith ei dad a hynny ar gyfnodau anodd, ac mae gen i frith gof amdano yn teithio trwy'r pentref yn ei gar moethus. Bu fy nhad hefyd yn garddio, weithiau, yn y Palé ond cyflogid ef gan Syr Henry, ŵr i'r entrepreneur Fictoraidd, yn y Fronheulog, lle nid anenwog am gysylltiad â Methodistiaeth Penllyn. Ond stori arall yw honno! Ychydig flynyddoedd yn ôl, bellach, cefais y cyfle - trwy fod yn aelod o bwyllogor cenedlaethol arbennig - o gysgu yng ngwely pedwar postyn Fictoria ac edrych i lawr trwy'r ffenestr ar y Llan, lle treuliais fy mhleentyndod! Yr unig waith o'r blaen y caem fynediad i'r Palé oedd wrth i ni fynd yno fel nifer o blant ysgol i ganu carolau yn y neuadd!

(Ceir amlinelliad cryno o hanes y diwydiannwr yn: *Henry Robertson, Pioneer of Railways into Wales* gan George G. Lerry (Oswestry 1949).

Herbert Hughes